Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Glangarnant**

**Glan Garnant**
**Heol Neuadd**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20 Medi 2022 a 21 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Glangarnant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Arkash Management Consultants Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Mai 2022 a 12 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Cynhaliwyd yr arolygiad er mwyn adolygu'r meysydd lle nad oedd y gwasanaeth yn cyflawni'r gofynion cyfreithiol ym mis Mai 2022. Mae'r rhain yn ymwneud â safonau gofal a chymorth, gwyliadwriaeth o fewn ardaloedd cymunedol mewnol a chynnal hawl y bobl i breifatrwydd ac urddas. Cynhaliwyd arolygiad llawn. Ar y cyfan, nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau digonol yn y meysydd hyn i fodloni'r gofynion cyfreithiol.

Mae awyrgylch hamddenol a chartrefol yng Nghartref Gofal Glangarnant ac mae'r gweithwyr gofal yn parchu'r bobl fel unigolion. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud llawer o newidiadau cadarnhaol er mwyn gwella'r safonau gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn cynnal preifatrwydd ac urddas y bobl ac yn hyrwyddo eu hiechyd a'u llesiant. Mae cynlluniau personol cyfredol ar waith ar gyfer y bobl sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn briodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn canolbwyntio fwy ar yr unigolyn. Mae'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion wedi gwella a gwnaed cynnydd o ran cwblhau adolygiadau gofal gyda'r bobl a'u cynrychiolwyr. Rhaid i'r gwasanaeth barhau â'r gwelliannau hyn.

Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae gwaith uwchraddio amgylcheddol yn mynd rhagddo hefyd sydd o fudd i'r bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Rhoddwyd systemau archwilio clir ar waith er mwyn monitro arferion a'u gwella. Gwnaed cynnydd o ran hyfforddi a goruchwylio'r staff, ac mae'n rhaid iddo barhau. Mae rolau'r staff yn cael eu datblygu, ond mae angen gwaith i godi eu morâl.

Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth well o anghenion y bobl. Mae angen adolygu a diweddaru dogfennau allweddol y cartref.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu hyrwyddo. Mae'r camerâu gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio'n unol â pholisi CCTV y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y bobl eu cynnal wrth ddarparu gofal a chymorth. Maent yn parchu dewisiadau ac arferion gofal y bobl, a amlinellir yn y cynlluniau personol. Mae'r gwasanaeth yn casglu gwybodaeth am gefndiroedd y bobl, gan gynnwys beth sy'n wirioneddol bwysig iddynt. Caiff y wybodaeth hon ei hadlewyrchu mewn dogfen unigol y bydd y gweithwyr gofal yn gallu edrych arni yn ystafelloedd unigol y bobl. Anogir y bobl i wneud dewisiadau bob dydd ac i rannu eu barn am y gwasanaeth. Gwnaed trefniadau i'r bobl adolygu cynnwys eu cynlluniau personol a'u canlyniadau gofal a chymorth yn ffurfiol. Mae'r gwasanaeth yn trefnu'r awdurdodiadau perthnasol er mwyn sicrhau na chaiff y bobl eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd anghyfreithlon. Mae gwybodaeth ar gael am y gwasanaeth, ond byddai'n fuddiol cynnwys rhagor o fanylion yn y dogfennau allweddol a'u diweddaru.

Caiff anghenion corfforol ac emosiynol y bobl eu nodi a'u diwallu. Mae'r gwasanaeth wedi gwella ansawdd y wybodaeth yn y cynlluniau personol yn sylweddol. Diweddarwyd y cynlluniau hyn yn dilyn newidiadau o ran anghenion y bobl. Mae'r gwasanaeth yn cyfarfod â gweithwyr iechyd proffesiynol yn rheolaidd i drafod iechyd, gofal a thriniaethau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn parhau i wella ei drefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae'r bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a chymdeithasu â'r staff a'r preswylwyr eraill. Anogir y bobl i fwyta ac yfed yn dda. Caiff gwybodaeth a diweddariadau am iechyd a llesiant y bobl eu rhannu â'r gweithwyr gofal wrth drosglwyddo rhwng sifftiau ac yn ystod cyfarfodydd staff. Cynhelir archwiliadau er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd ymarfer y gellid eu gwella.

Mae mesurau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol ag unrhyw gyngor a geir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r gweithwyr gofal yn weladwy i'r bobl ac maent yn gallu rhagweld eu hanghenion. Maent yn deall sut i gadw'r bobl yn ddiogel a sut i ymateb yn brydlon pan fydd larymau diogelwch yn canu. Mae'r lefelau staffio yn codi yn dilyn archwiliad dibyniaeth diweddar. Mae'r rheolwyr yn helpu'r staff i ddatblygu yn eu rolau. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu yn ddiweddar. Mae lefel gyffredinol y sesiynau hyfforddi a goruchwylio a gaiff y staff yn gwella. Mae'r bobl yn hyderus yng ngallu'r staff ac yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio barn am unrhyw faterion. Mae'r unigolyn cyfrifol yn monitro'r broses o reoli'r gwasanaeth yn ofalus.

Mae'r bobl yn byw mewn llety glân a chyfforddus sy'n hyrwyddo eu diogelwch a'u llesiant. Mae'r ystafelloedd cymunedol yn olau ac yn fawr ac yn cynnig cysur. Mae'r cynllun yn

ymarferol ac yn cynnwys ardaloedd lle gall y gweithwyr gofal oruchwylio'r bobl mewn ffordd anymwthiol. Mae'r lolfeydd yn fannau poblogaidd lle gall y bobl ymlacio, cymdeithasu ag eraill a mwynhau adloniant. Mae rhaglen adnewyddu barhaus yn sicrhau bod y cartref wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda. Mae trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau bod y cyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r unigolyn cyfrifol yn adolygu'r safle yn ystod ymweliadau ffurfiol ac yn sicrhau y caiff gwaith ei gynnal os bydd angen.

## Gofal a Chymorth

Mae'r safonau gofal a chymorth wedi gwella'n sylweddol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym fod risg i ddiogelwch a llesiant y bobl gan nad oedd y bobl bob amser yn cael gofal priodol. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth gennym yn gofyn i'r darparwr weithredu ar unwaith. Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym fod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac y maent am eu cael. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ac yn cael cyfleoedd i fynd ar deithiau rheolaidd. Mae staff sy'n siarad Cymraeg yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl. Mae'r bobl yn rhyngweithio'n dda â'r gweithwyr gofal, sydd i'w gweld yn yr ardaloedd cymunedol. Clywsom lawer o chwerthin wrth i'r bobl fwynhau sgyrsiau difyr â nhw. Dywedodd un person, *"Maen nhw i gyd yn dda yma a dweud y gwir".* Nododd un o'r perthnasau *"Maen nhw'n ardderchog".*

Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylion ac yn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl yn gywir. Mae dogfennau 'Dyma Fi' yn cael eu cwblhau er mwyn rhoi cipolwg o ddewisiadau ac arferion gofal y bobl. Mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'r staff i wella ansawdd y wybodaeth a gofnodir ar siartiau monitro ac mewn cofnodion dyddiol. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn llawn. Mae'r gweithwyr proffesiynol wedi nodi gwelliannau o ran cadw cofnodion yn ystod ymweliadau diweddar. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran trefnu a chofnodi adolygiadau gofal gyda'r bobl a'u cynrychiolwyr. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd, a chaiff ei brofi gennym yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r gwasanaethau meddygol ac arbenigol sydd eu hangen ar y bobl ar gael iddynt. Gall y gweithwyr gofal drafod unrhyw bryderon am ofal y bobl yn ystod cyfarfodydd wythnosol y tîm amlddisgyblaethol. Dengys y cofnodion fod y gwasanaeth yn dilyn cyngor a roddir gan weithwyr proffesiynol yn ystod gweithdrefnau diogelu. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl. Maent yn mynychu cyfarfodydd trosglwyddo rhwng sifftiau er mwyn cael gwybodaeth a diweddariadau pwysig am ofal y bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant ychwanegol i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r rheolwyr yn cynnal archwiliadau clinigol i fonitro arferion ac i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal gorau posibl. Gwnaed gwelliannau i'r systemau meddyginiaeth yn dilyn archwiliad meddyginiaeth diweddar. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth priodol â'u meddyginiaeth, er bod angen mwy o gysondeb o ran dogfennu'r broses o ddefnyddio eliau a roddwyd ar bresgripsiwn.

Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i sicrhau deiet addas. Mae'r cartref yn cynnig bwydlen amrywiol a gall y bobl weld lluniau i'w helpu i ddewis pa brydau bwyd yr hoffent eu cael. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhoi'r amser a'r cymorth yr oedd eu hangen ar y bobl yn ystod eu pryd amser cinio, ac roeddent yn ymwybodol o unrhyw ragofalon penodol yr oedd angen eu cymryd. Yn ôl yr hyn a welsom roedd y bobl yn mwynhau eu bwyd, ac yn ei ddisgrifio fel pryd *"da"*. Gwelsom fod y bobl yn cael eu hoff ddiodydd a byrbrydau.

Cyflwynwyd rhestr o anghenion a dewisiadau deietegol y bobl fel canllaw cyfeirio cyflym i'r staff. Mae'r gweithwyr gofal yn monitro pwysau'r bobl ac ar y cyfan, maent yn cadw cofnodion da a manwl am eu deiet. Mae'r rheolwyr yn cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod camau wedi'u cymryd mewn perthynas â phryderon am bwysau'r bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel lle caiff eu hawl i breifatrwydd ac urddas ei chynnal. Gwelsom y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl mewn ffordd urddasol. Mae'r gweithwyr gofal yn parchu preifatrwydd y bobl wrth fynd i mewn i'w hystafelloedd unigol neu'r ystafelloedd ymolchi. Caiff Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) eu dilyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a roddir ar waith mewn perthynas â'r bobl yn gyfreithlon. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym nad ymgynghorwyd yn llawn â'r bobl ynghylch defnyddio camerâu gwyliadwriaeth mewn ardaloedd cymunedol mewnol, a allai gael effaith andwyol ar eu preifatrwydd a'u hurddas. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth gennym yn gofyn i'r darparwr weithredu ar unwaith. Ers hynny, mae'r gwasanaeth wedi ymgynghori â'r bobl ac wedi penderfynu peidio â defnyddio camerâu CCTV mewnol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio camerâu gwyliadwriaeth allanol at ddibenion diogelwch. Mae hyn wedi'i nodi ym mholisi CCTV y gwasanaeth a'i ddatganiad o ddiben. Mae arwyddion wedi'u harddangos i hysbysu'r bobl bod y cartref yn defnyddio system CCTV. Felly, mae'r gwasanaeth bellach yn cyflawni'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol ac mae'r dodrefn yn briodol. Mae lluniau ac arwyddion dwyieithog yn helpu'r bobl i ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd. Gwelsom y bobl yn symud yn gyfforddus o amgylch eu cartref. Mae'r staff yn sicrhau bod ymwelwyr wedi cwblhau prawf llif unffordd negatif cyn iddynt allu cael mynediad i'r adeilad. Mae cyfleusterau golchi dwylo, hylif diheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ac yn hawdd cael gafael arnynt. Gwelsom fod yr ystafelloedd preifat a'r ystafelloedd cymunedol yn lân a bod y dodrefn o safon gyffredinol dda. Gwnaed rhywfaint o waith uwchraddio amgylcheddol ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys llawr newydd yn ardal y dderbynfa a gwaith paentio yn rhai o'r coridorau a'r ystafelloedd ymolchi.  Gwelsom rywfaint o ddifrod i ddrws ystafell wely a rhan o'r llawr mewn un o'r ystafelloedd bwyta. Cawsom sicrwydd gan yr unigolyn cyfrifol y byddai'r difrod hwn yn cael ei drwsio neu y byddai eitemau newydd yn cael eu prynu.

Mae mesurau iechyd a diogelwch ar waith. Mae gan y gwasanaeth swyddog cynnal a chadw sy'n cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd, ac mae'r rheolwr yn bwrw golwg drostynt. Caiff y staff eu hatgoffa am faterion iechyd a diogelwch yn ystod cyfarfodydd staff, er enghraifft sut i storio cemegion yn ddiogel a sut i wneud cais am atgyweiriadau cyffredinol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod gweithdrefnau symud a chodi a chario, gan fod y gweithwyr gofal yn eu helpu mewn ffordd ofalus. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn ymateb ar unwaith os oedd larwm cyfarpar diogelwch yn canu. Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r system clychau galw. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn ymateb yn brydlon i'w galwadau ar y cyfan, er bod y clychau galw allan o'u cyrraedd weithiau. Mae angen i'r gweithwyr gofal fod yn fwy gofalus wrth sicrhau bod cloch alw ar gael i'r bobl, fel yr amlinellir yn eu cynlluniau personol. Mae'r cofnodion yn cadarnhau bod cyfarpar symud a chodi a chario a chyfarpar diogelwch tân yn

cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ymdrin ag argymhellion a wnaed yn dilyn diweddariad i asesiad risg tân y cartref. Cynhaliwyd arolygiadau diogelwch nwy ac arolygiadau o osodiadau trydanol o fewn y terfynau amser a argymhellwyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth yn agos ac yn sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael i'r cartref ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da. Penodwyd dirprwy reolwr a staff nyrsio ychwanegol, sydd wedi lleihau'r pwysau ar y rheolwr. Mae'r rheolwr wedi cael sesiwn goruchwylio ffurfiol gan yr unigolyn cyfrifol ac wedi rhoi ffordd effeithiol o weithio ar waith gydag aelodau eraill o'r tîm rheoli. Mae'r rheolwyr wedi rhoi system archwilio glir ar waith er mwyn sicrhau y caiff safonau ymarfer da eu cynnal.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ystyried profiadau'r bobl yn ystod ymweliadau bob tri mis â'r cartref, gan bennu ac adolygu camau gweithredu er mwyn gwella'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn lleisio barn am eu profiadau. Dywedodd un person, *"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn eithaf da wrth ddatrys unrhyw broblemau"*. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi gan y rheolwyr gan nodi bod prinder staff yn effeithio ar forâl. Dywedodd y rheolwr wrthym fod staff ychwanegol yn cael eu recriwtio er mwyn gallu cynyddu'r lefelau staffio cyffredinol; penderfyniad a ysgogwyd gan archwiliad dibyniaeth diweddar. Bydd y dirprwy reolwr yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i'r staff yn ystod sifftiau gofal a rheoli. Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd a gwelsom fod y cyfarfodydd hyn yn rhyngweithiol ac yn llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, dylai'r rheolwyr ystyried ymgysylltu ymhellach â'r staff er mwyn ceisio gwella morâl.

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd o ran hyfforddi a goruchwylio'r staff. Ers yr arolygiad diwethaf, mae pob aelod o'r staff wedi cael sesiwn goruchwylio ffurfiol neu arfarniad blynyddol. Fe'u trefnwyd ar gyfnodau priodol er mwyn sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni. Rhoddwyd adolygiadau cyfnod prawf ar waith hefyd. Dengys y cofnodion y gall y staff drafod gofal y bobl yn ystod eu sesiynau goruchwylio ffurfiol ac y gallant adolygu eu hanghenion hyfforddiant a datblygiad. Mae goruchwylio'r staff yn faes i'w wella o hyd, a chaiff ei brofi gennym yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae swyddog ansawdd a chydymffurfiaeth y gwasanaeth yn monitro ac yn helpu staff wrth iddynt gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheolwyr yn gweithio gyda'r staff i ddatblygu eu rolau drwy hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r staff wedi cwblhau amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys cynllunio gofal, diogelu, ymwybyddiaeth o gwympiadau a chymorth ymddygiad cadarnhaol. Trefnwyd hyfforddiant diwedd oes ac mae'r gwasanaeth yn ystyried cyrsiau hyfforddi mewn perthynas â maeth ac iechyd y croen.

Mae gwybodaeth ar gael am y cartref a'i wasanaethau ond gellid gwella'r wybodaeth hon. Mae gan y cartref ddatganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig sy'n nodi ei nodau a'i amcanion a sut y cânt eu cyflawni. Yn gyffredinol, mae'r dogfennau hyn yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth yn briodol. Fodd bynnag, mae angen eu diweddaru ac mae angen iddynt gynnwys mwy o fanylion. Dylai'r gwasanaeth hefyd sicrhau

bod y dogfennau hyn ar gael mewn fformat sy'n addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Gosododd y gwasanaeth gamerâu mewn ardaloedd cymunedol heb ymgynghori'n briodol â'r bobl, a allai fod wedi cael effaith andwyol ar eu preifatrwydd a'u hurddas. Dylai'r gwasanaeth annog y bobl i gyfrannu eu safbwyntiau am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. | Cyflawnwyd |
| 43 | Ni chydymffurfiwyd â pholisi CCTV y gwasanaeth. Gosododd y gwasanaeth gamerâu mewn ardaloedd cymunedol heb ymgynghori â'r bobl. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Nid yw'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu'n unol â chynlluniau personol y bobl.  Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid oes unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau yn cael eu cynnal o'r cynlluniau personol sy'n ystyried i ba raddau y mae canlyniadau personol y bobl yn cael eu cyflawni a'u bod yn cynnwys yr unigolyn, ei gynrychiolydd (os yw'n berthnasol) a'r awdurdod lleoli. | Adolygwyd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio bob tri mis nac arfarniadau blynyddol. | Adolygwyd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud trefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn cael y sesiynau goruchwylio a'r hyfforddiant gofynnol i'w helpu yn ei rôl. Mae heriau mewn perthynas â recriwtio staff nyrsio wedi effeithio ar allu'r tîm rheoli i roi systemau sy'n helpu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau ar waith yn effeithiol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/11/2022